**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
seneddiechyd@senedd.cymru

Copi at:
Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
seneddcyllid@senedd.cymru

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
seneddDCC@senedd.cymru

4 Ebrill 2025

Annwyl Russell,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Mawrth yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y camau i wella'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion am GIG Cymru.

Fel y gwnaethoch chi gyfeirio ato yn eich llythyr, mae gwaith sylweddol ar y gweill i ailgynllunio ac adnewyddu'r broses gwyno sy'n canolbwyntio ar wneud y canlynol:

- Rhoi'r claf wrth wraidd y broses gwyno
- Gwella'r ffocws ar gyfathrebu tosturiol sy'n canolbwyntio ar y claf
- Gwella'r broses *Gweithio i Wella* er mwyn iddi fod yn fwy cynhwysol
- Cynnwys proses uwchgyfeirio ar gyfer pryderon brys am gam-drin neu niwed bwriadol
- Hwyluso'r gwaith o roi atebion yn gynt ar ôl i rywun farw
- Adnewyddu'r trefniadau i ddarparu cyngor cyfreithiol am ddim ac adroddiadau gan arbenigwyr meddygol

Mae'r rhaglen waith gymhleth hon yn cynnwys diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011, ailwampio'r canllawiau, a datblygu siarter y bobl a set o safonau i'r GIG lynu wrthynt. Mae hefyd yn cynnwys datblygu hyfforddiant ac addysg fodern, gwaith cydlunio datblygiad deunyddiau cymorth i blant a phobl ifanc, a chefnogaeth fanwl i'r GIG weithredu'r newidiadau hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r gwaith yn cael ei oruchwylio gan swyddogion mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid y GIG, rhanddeiliaid o Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Llais. Yn ogystal, bydd grŵp cyflawni gweithredu strategol yn cael ei ffurfio gan Weithrediaeth y GIG i oruchwylio'r paratoadau ar gyfer cychwyn y rheoliadau hyn yn gynnar yn 2026.

O ran yr amserlen, y bwriad ar hyn o bryd yw gosod y rheoliadau gerbron y Senedd yn ystod gwanwyn 2025 a chynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ddechrau haf 2025.

Hoffwn felly gynnig briff technegol gan fy swyddogion i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am fanylion cwmpas y newidiadau.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a chadeirydd y Pwyllgor Cyllid, gan fy mod i hefyd eisiau cynnig yr un briff technegol i aelodau'r pwyllgorau hyn.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych mewn cysylltiad â'r cynnig hwn.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care